## ❖ Gweddi Nadolig

Diolchwn i Ti O Dduw Ein Tad am y Nadolig unwaith yn rhagor – am y cynhesrwydd a ddaeth i ddod â lliw i fochau'r byd unwaith eto, a hynny ar ffurf diniweidrwydd plentyn. Diolchwn ynghanol yr hirlwm a brath y rhew fod yna le i feirioli a chynhesrwydd yng nghalonnau dynoliaeth o hyd.

Cofia am y newynog y Nadolig hwn – y rhai na allant greu Nadolig y cerdyn iddynt eu hunain. Ac wrth i ni wledda a phartïa:

'Heddiw nac anghofiwn
Waedd y lleill am weddill hwn.'

Cofia yr unig a'r digartref y Nadolig hwn, sydd heb gysgod teulu na lle i roi eu pen i lawr.

'Gad i ni weld dy wyneb Di
Ym mhob cardotyn gwael
A dysgu'r wers i wneuthur hyn
Er mwyn Dy Gariad hael.'

Gofala fod lle yn y llety, ac wedi i ni agor drysau ein personoliaethau a'n heneidiau ein bod ni'n eu cadw ar agor gydol y flwyddyn. Cofia bawb sy'n wynebu colled neu anawsterau dyrys.

'Pan oeddem ni mewn carchar tywyll, du
rhoist in oleuni nefol.
Halelwia! Amen.'

Gwna ni yn bobl y drysau agored sy'n fodlon rhannu y Nadolig yr wyt Ti wedi rhoi y fraint i ni ei sylweddoli a'i deimlo.

'Daeth Gŵyl y Baban
â gwên nôl i'r byd.
Deuwch, cenwch, clodforwch.
Dewch at eich gilydd
a bloeddiwch ynghyd
fel un, Hale-liwia.'

Er mwyn Dy Enw, Amen.